

Gwneud penderfyniadau Arweiniad i weithwyr cynggori

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain



Mae cyfraith newydd all eich helpu - Deddf Gallu Meddyliol 2005

Gwneud penderfyniadau Arweiniad i weithwyr cyngori

Helpu pobl sy'n methu â gwneud rhai
penderfyniadau drostynt eu hunain

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a sut y bydd yn effeithio arnoch chi.

Nid Cód Ymarfer statudol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ac nid yw'n arweiniad i'r ffordd y bydd y gyfraith yn berthnasol i sefyllfaoedd penodol.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan:



dca

Adran Materion Cyfansoddiadol
Cyfiawnder, hawliau a democrataeth
Department for Constitutional Affairs
Justice, rights and democracy



public
guardianship
office



*Department
of Health*



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cafodd ei hysgrifennu gan:

advicenow.org.uk

Diolchiadau

Rhaglen Weithredu Gallu Meddyliol (MCIP) sydd wedi cyhoeddi'r llyfryn hwn. Mae MCIP yn rhaglen lywodraeth ar y cyd rhwng yr Adran Materion Cyfansoddiadol, yr Adran Iechyd, Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'i sefydlu i weithredu'r drefniadaeth, y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer lansio Deddf Gallu Meddyliol yn 2007.

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan Jana Elles gyda deunydd gan Penny Letts. Rydym yn ddiolchgar iddyn nhw ac i weddill y tîm yn Advice Services Alliance Advicenow.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd adborth ar ddrafftiau o'r llyfryn ac a gymerodd ran yn y cynllun peilot. Maent wedi chwarae rhan bwysig drwy rannu eu barn a'u syniadau am y llyfryn, a'n helpu i graffu ar ein gwaith.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	6
	Ar gyfer pwy y mae'r llyfryn hwn?	6
	Sut y bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn effeithio ar fy ngwaith?	6
	Y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol	8
	Beth mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn ymwneud ag ef?	9
	Pryd daw'r Ddeddf Gallu Meddyliol i rym?	14
2	Sut y byddaf yn gwybod a yw rhywun heb allu?	15
	Asesu Gallu: Egwyddorion 1, 2 a 3	16
	Y prawf asesu gallu	17
	Pwy sy'n cael asesu gallu?	19
	Beth mae hyn yn ei olygu i mi?	20
3	Helpu pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau	21
	Egwyddor 4 – y budd gorau	21
	Egwyddor 5 – y dewis llai cyfyngiadol	23
4	Cyngchori pobl am gynllunio ar gyfer y dyfodol	25
	Atwrneiaeth Barhaol	25
	Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth	27
	Dymuniadau a theimladau ynghylch gofal a thriniaeth	29

5	Ym mha ffordd arall y gallai'r Ddeddf Gallu Meddyliol newydd effeithio ar fy ngwaith?	30
	Cam-drin rhywun sydd heb allu neu ei esgeuluso'n fwriadol	30
	Amddiffyniad rhag atebolrwydd i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol	30
	Cymryd rhan mewn ymchwil	31
	Datrys anghydfodau a hawliau apêl	32
6	Pwy sy'n gallu helpu?	34
	Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (OPG)	34
	Y Llys Gwarchod	34
	Dirprwyon y Llys Gwarchod	35
	Ymwelwyr y Llys Gwarchod	36
	Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA)	36
7	Egluro termau	39
8	Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol?	42
9	Rhai cysylltiadau defnyddiol	43

1. Cyflwyniad

Ar gyfer pwy y mae'r llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer gweithwyr cynghori ac eraill sy'n cynnig cyngor fel rhan o'u gwaith. Mae'n rhoi gwybod i chi am y Ddeddf Gallu Meddyliol a sut y bydd yn effeithio ar eich gwaith.

Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol (y cyfeirir ati hefyd fel 'y Ddeddf' yn yr arweiniad hwn) yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2007. Bydd yn helpu ac yn cefnogi pobl nad ydynt yn gallu gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hun oherwydd strôc, er enghraifft, neu anaf i'r ymennydd, demensia, anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl. Bydd yn helpu pobl i gynllunio ymlaen rhag ofn na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Os nad ydych yn sicr o ystyr rhai o'r termau yn yr arweiniad hwn, trowch i'r adran Egluro termau ar dudalen 39.

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio rhoi trosolwg cyffredinol i chi ar y Ddeddf a'r prif oblygiadau sydd ynddi i chi yn eich gwaith, ond mae'n bosibl y byddwch yn gweld bod arnoch angen mwy o wybodaeth. Trowch i dudalen 42 lle mae rhestr o gysylltiadau defnyddiol, ac mae rhestr o ffynonellau cymorth pellach yng nghefn y llyfryn hwn.

Sut bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn effeithio ar fy ngwaith?

Bydd angen ichi wybod am y Ddeddf Gallu Meddyliol os ydych yn rhoi cyngor i:

- pobl a allai fod heb allu meddyliol i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain
- pobl sy'n gofalu am rai sydd heb allu, neu'n eu helpu neu'n gweithio gyda nhw
- unrhyw un sydd am gael gwybod mwy am y ddeddf hon a sut y gallai effeithio arno, er enghraifft, os yw am baratoi ar gyfer adeg pan allai fod heb allu.

Bod heb allu meddyliol

Os yw rhywun heb allu meddyliol, ni fydd yn gallu gwneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud, oherwydd rhyw effaith ar weithrediadau'r meddwl neu'r ymennydd. Gallai'r anallu fod yn ganlyniad i strôc, er enghraifft, neu anaf i'r ymennydd, problem iechyd meddwl, demensia, neu anabledd dysgu. Yn y llyfryn hwn, mae 'bod heb allu' yn golygu'r un peth â 'bod heb allu meddyliol'.

Hanes cynghorydd

Ar ôl i Marie fynd, meddyliais am yr hyn yr oedd wedi'i ofyn i mi. Roedd yn ymddangos ei bod yn poeni o ddifrif am Ruby ac roedd yn beth da gweld bod menyw ifanc yn gofalu am les ei chymydog, ond roeddwn yn teimlo braidd yn anesmwyth ynghylch rhoi cyngor iddi hi heb gwrdd â'r un yr oeddem yn sôn amdani.

Dywedodd Marie wrthyf fod meddyg Ruby wedi dweud bod angen iddi symud i gartref gofal. Yn ei farn ef, nid yw Ruby yn ymdopi ar ei phen ei hun gan fod y demensia sydd ganddi wedi dwysáu cymaint. Daeth Marie atom ni i weld a allem awgrymu rhywle. Roedd rhywbeth rhyfedd am hyn i gyd, gan fod Marie yn meddwl bod Ruby yn ymdopi'n iawn. Mae'n debyg bod Ruby yn anhapus iawn am y syniad o fynd i gartref gofal ond, am fod y meddyg yn dweud y dylai hi symud, maent yn teimlo bod rhaid iddynt gyd-fynd.

Y cyngor a roddais i Marie oedd y gallem gymryd cam yn ôl, yn hytrach na mynd ati'n syth i drefnu iddi symud, i weld beth yn union sydd er y budd gorau i Ruby. Roeddwn am gwrdd â Ruby fel y gallwn geisio egluro pethau'n ddigon clir fel y gallai hi ddewis drosti ei hun. Bu'n rhaid imi newid pethau o gwmpas er mwyn trefnu apwyntiad: roedd Marie yn credu y byddai Ruby yn fwy 'o gwmpas ei phethau' ar ôl cael ei chinio. Mae'n debyg bod Ruby

yn cynhyrfu weithiau yng nghwmni pobl newydd, felly roedd yn rhaid inni drefnu fel bod Marie yn gallu bod yno hefyd, fel y gallai fy helpu i egluro. Ond roeddwn yn gobeithio y gallwn fod yn sicr, ar ôl y cyfarfod, fod Ruby yn fodlon ar beth bynnag y byddem yn ei helpu i'w wneud yn y diwedd.

Cewch wybod beth a ddiwyddodd pan aeth y cynghorydd i weld Ruby yn ddiweddarach yn y llyfryn hwn.

Mae Deddf Gallu Meddyliol yn gallu effeithio ar bawb. Yn ogystal â chleientiaid sydd heb allu eu hun, efallai y bydd eu ffrindiau, eu perthnasau neu eu gofalwyr, fel Marie yn y stori uchod, yn dod drwy'ch drws. Pan fyddwch yn eu helpu, bydd yn rhaid ichi ofyn 'a oes gallu meddyliol gan fy nghleient i wneud y penderfyniad hwnnw?' neu 'a yw'r peth y mae fy nghleient yn gofyn i mi ei gynghori arno er y budd gorau i'r person y mae'n gofalu amdano?' Os oes unrhyw amheuaeth am allu eich cleient, neu rywun y mae'ch cleient yn ei helpu, dylech sicrhau bod eich gweithredoedd a'ch cofnodion achos yn adlewyrchu'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Neddf Gallu Meddyliol.

Y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Gallu Meddyliol

Ceir Cod Ymarfer ochr yn ochr â'r Ddeddf a fydd yn rhoi canllawiau am y modd y dylai'r Ddeddf weithio o ddydd i ddydd. Bydd yn rhoi astudiaethau achos ac yn egluro'n fanylach beth yw prif nodweddion y ddeddf newydd. Bydd gweithwyr proffesiynol ac unrhyw un sy'n cael ei dalu am ei waith gyda rhywun sydd heb allu dan ddyletswydd i 'ddal sylw' ar y Cod. Mae 'dal sylw' yn golygu talu sylw i'r Cod Ymarfer a gallu dangos eich bod yn gyfarwydd â'r canllawiau sydd ynddo a'ch bod wedi'u dilyn. Os na fyddwch yn dilyn y Cod, dylech allu rhoi rhesymau pendant dros beidio â gwneud hynny.

Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr cyngtori ac eirioli (rhai cyflogedig a di-dâl), yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn gysylltiedig â'ch achosion, fel meddygon, cyngorwyr ar dai neu iechyd, gweithwyr ieuencid a'r heddlu. Cofiwch nad oes raid i'r cysylltiad fod ar ffurf rôl ffurfiol neu gyflogedig, gan ei fod yn cynnwys rhai sy'n gweithio fel gweithwyr cymorth gwirfoddol yn ogystal ag atwrneiod (tudalen 25) neu ddirprwyon (tudalen 35).

Ni fydd dyletswydd ar aelodau o'r teulu, ffrindiau a gofalwyr eraill nad ydynt yn derbyn tâl i 'ddal sylw' ar y Cod ond byddant yn cael bod y canllawiau'n ddefnyddiol, er hynny. Byddai'n syniad da ichi dynnu eu sylw at rannau perthnasol y Cod.

Bydd y Cod ar gael o Ebrill 2007, a bydd modd ei lawrlwytho am ddim o wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol:

www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm

Beth mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn ymwneud ag ef?

Mae'r Ddeddf yn crynhoi llawer o'r egwyddorion ar gyfer ymarfer da a'r penderfyniadau mewn cyfraith achosion sy'n helpu pobl nad oes ganddynt allu meddyliol bob amser i wneud penderfyniadau drostynt eu hun. Er bod llawer sydd yn y Ddeddf nad yw'n newydd, mae hyn yn golygu eich bod bellach yn gallu gweld y gyfraith sy'n effeithio ar bobl a allai fod heb allu mewn un lle heb orfod ei rhoi wrth ei gilydd o ffynonellau eraill. Bydd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno rhai newidiadau a mesurau diogelu newydd y bydd yn rhaid ichi wybod amdanynt.

Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau y bydd pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau ac sydd felly'n agored i niwed yn cael pob cymorth a chefnogaeth bosibl i'w galluogi i wneud penderfyniadau drostynt eu hun, neu i gymryd cymaint o ran ag y gallant mewn penderfyniadau.

Mae'r Ddeddf yn gosod pum egwyddor allweddol sy'n sail i bob dim arall sydd yn y Ddeddf a'r dull o'i defnyddio. Yn benodol, mae'r egwyddor o weithredu 'er y budd gorau' i rywun yn hollbwysig. Mae'r pum egwyddor wedi'u disgrifio ar dudalen 15.

Y budd gorau

Os gwneir rhywbeth neu os penderfynir rhywbeth ar ran pobl sydd heb allu i benderfynu drostynt eu hun, rhaid i hynny fod er y budd gorau iddynt. Mae hyn yn golygu ystyried beth sy'n fwyaf llesol i'r person dan sylw, nid beth y mae rhywun arall yn ei ddymuno. Gweler tudalen 21 am fwy o fanylion.

Mae'r Ddeddf yn egluro sut i ganfod a yw rhywun heb allu meddyliol a pha bryd y gallai hynny fod yn bwysig:

- Mae'n diffinio diffyg gallu meddyliol, gan nodi prawf gallu syml ac mae'n egluro bod gallu rhywun yn gallu amrywio yn ôl yr amser a'r math o benderfyniad y mae'n rhaid ei wneud (gweler tudalen 15).
- Mae hyn yn cynnwys pobl y mae eu gallu yn amrywio, am fod ganddynt broblemau iechyd meddwl, er enghraifft, sy'n golygu y gallent wneud penderfyniad penodol un diwrnod ond nid y diwrnod nesaf.
- Mae hefyd yn cynnwys rhai sydd heb allu i wneud rhai penderfyniadau ond nid pob un. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun sydd â demensia yn gallu penderfynu beth i'w wisgo ond gallai fod heb allu i benderfynu a yw'n gallu byw'n ddiogel yn ei gartref ei hun.

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn ei gwneud yn haws i rywun gynllunio ymlaen ar gyfer adeg pan allai fod heb allu i wneud rhai penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd:

- Yn lle Atwrneiaeth Barhaus (EPA) ceir Atwrneiaeth Barhaol (LPA). Bydd hon yn galluogi pobl i benodi cynrychiolydd ('atwrnai') i wneud penderfyniadau personol ynghylch iechyd neu les, neu benderfyniadau am eu heiddo a'u materion ariannol, os byddant heb allu i wneud penderfyniadau o'r fath drostynt eu hun ar ryw adeg yn y dyfodol (gweler tudalen 25).
- Mae hefyd yn ffurfioli rheolau ar wneud penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth feddygol, ac yn pennu gofynion ychwanegol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw sy'n gwrthod triniaeth i gynnal bywyd (gweler tudalen 27).

Er mwyn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, mae'r Ddeddf:

- Yn egluro sut y dylai pobl weithredu wrth helpu rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw gymorth a roddir iddo 'er y budd gorau iddo' (gweler tudalen 21).
- Yn creu Llys Gwarchod newydd sydd â statws Uchel Lys a fydd yn delio ag achosion sy'n ymwneud â gallu meddyliol (gweler tudalen 34).
- Yn creu Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) newydd (gweler tudalen 36).
- Yn creu rôl y Gwarcheidwad Cyhoeddus a fydd yn cadw cofrestr o Atwrneiaethau Parhaol ac Atwrneiaethau Parhaus, yn goruchwyllo dirprwyon (gweler tudalen 34) ac yn darparu cyngor a gwybodaeth gyffredinol am y Ddeddf. Bydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cael cymorth gan Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus.

- Yn creu trosedd newydd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol mewn cysylltiad â rhywun a allai fod heb allu i wneud penderfyniadau i'w amddiffyn ei hun (gweler tudalen 30).
- Yn pennu'r rheolau ar gyfer amgylchiadau lle bydd pobl sydd heb allu i gydsynio yn dal i gael cymryd rhan mewn ymchwil (gweler tudalen 31).

Penderfyniadau sydd heb eu cynnwys yn y Ddeddf newydd

Mae rhai mathau o benderfyniadau (fel cydsynio i gael rhyw, priodi, ysgaru, mabwysiadu a phleidleisio etc) na allant byth gael eu gwneud gan rywun arall ar ran rhywun sydd heb allu, hyd yn oed os yw'n 'atwrnai' neu'n 'ddirprwy', ac nid yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn newid hynny.

Nid yw'r rhan fwyaf o Ddeddf Gallu Meddyliol yn gymwys i rai dan 16 mlwydd oed. Mae dau eithriad i hynny:

- Caiff y Llys Gwarchod wneud penderfyniadau am eiddo ar ran rhai dan 16 oed,
- Bydd y trosedd newydd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol (gweler tudalen 30) yn gymwys hefyd i sefyllfaoedd sy'n ymwneud â rhai dan 16 oed sydd heb allu.

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Gallu Meddyliol yn gymwys i bobl ifanc 16-17 oed er na fydd rhai dan 18 oed yn cael gwneud Atwrnaeth Barhaol, neu benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth dan y ddeddf newydd.

I gael mwy o wybodaeth am effaith y Ddeddf ar bobl ifanc a sut y bydd yn rhyngweithio â deddfwriaeth berthnasol arall fel Deddf Plant, darllenwch y Cod. Dylech ofyn am gymorth arbenigol os oes angen ichi roi cyngor ar hyn.

Deddf Iechyd Meddwl

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ymwneud yn bennaf â phobl a gafodd ddiagnosis o fod â phroblem iechyd meddwl sy'n golygu, er mwyn eu hiechyd neu eu diogelwch eu hun neu i amddiffyn pobl eraill, fod rhaid eu cadw neu eu trin yn orfodol.

Nid yw'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn newid Deddf Iechyd Meddwl, ond gallai'r ddwy Ddeddf effeithio ar yr un bobl. Bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol yn gymwys i bawb sydd heb allu, gan gynnwys cleifion sydd wedi'u cadw yn yr ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, ni fydd y bobl hynny'n dod dan y Ddeddf Gallu Meddyliol mewn cysylltiad â thriniaeth iechyd meddwl orfodol y gellir ei rhoi heb gael caniatâd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ei hun. Er hynny, bydd y Ddeddf Gallu Meddyliol newydd yn gymwys i'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd eraill lle mae rhywun wedi'i gadw sydd heb allu i wneud penderfyniad, fel penderfyniad i roi caniatâd i dderbyn triniaeth am unrhyw beth arall – cyflwr corfforol, er enghraifft – neu benderfyniadau ynghylch arian.

Mae'r Llywodraeth yn paratoui i ddiweddarau Deddf Iechyd Meddwl. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan yr Adran Iechyd yn: www.dh.gov.uk.

Pryd daw'r Ddeddf Gallu Meddyliol i rym?

Ebrill 2007

- Bydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) yn dechrau gweithredu yn Lloegr (gweler tudalen 36).
- Bydd y trosedd newydd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr (gweler tudalen 30).
- Bydd Adrannau 1-4 y Ddeddf (yr egwyddorion, asesu gallu a phennu'r budd gorau – gweler tudalennau 15-22) sy'n hollbwysig i weithrediad y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) yn dod i rym hefyd, ond dim ond mewn sefyllfaoedd lle y gallai'r gwasanaeth fod yn gysylltiedig, ac i ddibenion y trosedd. Ni fydd Adrannau 1-4 y Ddeddf yn gymwys mewn unrhyw sefyllfaoedd eraill tan Hydref 2007.
- Bydd y Cod Ymarfer ar gyfer y Ddeddf yn cael ei gyhoeddi ac, os yw rhywun yn gorfod dal sylw arno mewn sefyllfaoedd lle gallai'r Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol fod yn gysylltiedig, dylai ddilyn y Cod.

Hydref 2007

- Bydd holl rannau eraill y Ddeddf yn dod i rym gan gynnwys y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol yng Nghymru.

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth, trowch i dudalen 42 lle mae rhestr o gysylltiadau defnyddiol a ffynonellau gwybodaeth eraill.

2. Sut y byddaf yn gwybod a yw rhywun heb allu?

Fel rhan o'ch gwaith, mae'n bosibl y bydd cleient yn gofyn i chi am gyngor am ei fod yn poeni am allu rhyw berthynas i wneud penderfyniadau, er enghraifft, am fod y perthynas yn rhoi arian i gymydog drwy'r amser er nad yw'n gallu fforddio gwneud hynny. Er mwyn delio ag achosion o'r fath, bydd yn rhaid ichi fod yn sicr bod y person dan sylw yn meddu ar allu meddyliol i wneud penderfyniadau o'r math hwnnw. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid ichi wybod sut i wneud asesiad o allu, un ai er mwyn rhoi'r prawf eich hun neu i'w egluro i berthnasau a gofalwyr.

Er mwyn hwyluso hynny, mae'r Ddeddf yn dechrau drwy nodi pum egwyddor allweddol y mae'n rhaid cadw atynt ym mhob dim yr ydych yn ei wneud mewn cysylltiad â rhywun a allai fod heb allu i wneud rhai penderfyniadau. Mae hefyd yn diffinio beth yw 'gallu meddyliol' ac yn egluro sut y byddwch yn asesu i ganfod a oes gan rywun allu meddyliol i weithredu mewn unrhyw sefyllfa benodol.

Y pum egwyddor:

Egwyddor 1

Dylid cymryd bod pawb yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun os na phrofir fel arall.

Egwyddor 2

Dylai rhywun gael pob cymorth a chefnogaeth bosibl i wneud ei benderfyniad ei hun a rhoi gwybod amdano cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad ei fod heb allu i wneud ei benderfyniad ei hun.

Egwyddor 3

Ni ddylid trin rhywun fel un sydd heb allu dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.

Egwyddor 4

Os cymerir camau neu os gwneir penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu, rhaid iddynt fod er y budd gorau iddo .

Egwyddor 5

Os cymerir camau neu os gwneir penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu, dylent gyfyngu ar ei hawliau a'i ryddid i weithredu i'r graddau lleiaf posibl.

I gael mwy o fanylion, mae'n bwysig ichi gyfeirio at Ddeddf Gallu Meddyliol a'r Cod Ymarfer.

Dylid defnyddio'r tair egwyddor gyntaf i ganfod pa benderfyniadau y mae rhywun yn gallu eu gwneud drosto'i hun. Rydym yn ystyried hyn yn fwy manwl yn yr adran 'Asesu gallu' isod.

Mae'r ddwy egwyddor olaf yn nodi sut y dylid gwneud penderfyniadau a chymryd camau ar ran rhywun sydd heb allu. Eglurir hynny'n fwy manwl ar dudalennau 21-23.

Asesu gallu: egwyddorion 1, 2 a 3

Mae'r ddeddf yn nodi sut y gallwch asesu gallu rhywun i wneud penderfyniad penodol. Wrth i unrhyw un wneud asesiad, rhaid iddo gymhwyso egwyddorion 1, 2 a 3:

Mae **Egwyddor 1** yn dweud bod gan bob oedolyn hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun. Rhaid ichi gymryd bod rhywun yn gallu gwneud penderfyniad, os na phofir fel arall. Ni ddylech gymryd nad yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod ag anabledd neu gyflwr penodol.

Mae **Egwyddor 2** yn dweud bod rhaid ichi sicrhau, cyn rhoi'r prawf gallu, fod yr un yr ydych yn credu y gallai fod heb allu wedi cael yr holl gymorth a chefnogaeth y mae eu hangen arno i'w gymell a'i alluogi i wneud ei benderfyniad ei hun a rhoi gwybod amdano. Dylid rhoi'r holl wybodaeth y bydd ar y person ei hangen i wneud y penderfyniad, a dylid ei chyflwyno iddo mewn modd sydd mor hawdd ei ddeall ag sy'n bosibl.

Gallai hynny olygu, er enghraifft, fod yr wybodaeth yn cael ei hegluro iddo gan rywun y mae'n ei ddeall ac yn ymddiried ynddo, a defnyddio lluniau, Braille neu dâp sain. Nid oes raid i benderfyniad y person gael ei gyfleu mewn rhyw ffordd benodol (er enghraifft, nid oes raid iddo fod ar lafar neu mewn ysgrifen neu fod yn ramadegol) cyn belled â'i fod yn amlwg beth y mae wedi'i benderfynu. Mewn rhai achosion, gallai arwydd drwy smicio'r llygad, er enghraifft, neu wasgu'r llaw fod yn ddigon i roi gwybod am benderfyniad. Os bydd amheuaeth o hyd ynghylch ei allu, ar ôl rhoi'r holl gymorth a chefnogaeth, dylid ei asesu.

Mae **Egwyddor 3** yn dweud na ddylech drin cleient fel un sydd heb allu dim ond am ei fod yn dewis gwneud penderfyniad yr ydych chi neu rywun arall yn credu ei fod yn annoeth. Mae'r prawf gallu yn ymwneud â'r gallu i wneud penderfyniad, nid pa mor synhwyrol ydyw. Nid yw penderfynu gwario cymaint ag y gellir ar ddau neu dri cherdyn credyd yn beth doeth i'w wneud, ond nid oes awgrym y dylid asesu gallu meddyliol rhywun sy'n mynd i ddyled fel hyn.

Y prawf asesu gallu

Mae'r ddeddf newydd yn dweud na ddylid cymryd bod rhywun heb allu dim ond oherwydd ei oedran, ei ymddygiad, unrhyw gyflwr sydd ganddo, neu am nad oedd yn gallu gwneud penderfyniad penodol yn y gorffennol. Mae'r ddeddf newydd yn egluro mai'r hyn a wneir wrth asesu a yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad yw canfod a yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol ar adeg benodol ac nid canfod ei allu i wneud penderfyniadau'n gyffredinol. Gallai diffyg gallu fod yn rhywbeth dros dro, pan fydd rhywun yn profi iselder, er enghraifft, neu gallai fod yn gysylltiedig â rhai mathau o faterion yn unig, er enghraifft, gallai rhywun sydd ag anabledd dysgu fod â'r gallu i benderfynu beth y dylai ei wisgo bob dydd, ond gallai fod heb y gallu i ddewis sut i fuddsoddi ei arian.

Mae pedwar cwestiwn allweddol y mae'n rhaid ichi eu hystyried er mwyn canfod a yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad:

- A yw'r person yn gallu deall gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad, gan gynnwys deall y canlyniadau tebygol o wneud neu beidio â gwneud y penderfyniad?
- A yw'n gallu cofio'r wybodaeth honno'n ddigon hir i wneud y penderfyniad?
- A yw'n gallu defnyddio a phwysu a mesur yr wybodaeth er mwyn dewis?
- A yw'n gallu rhoi gwybod am ei benderfyniad mewn unrhyw ffordd?

Os ydych yn credu mai 'nac ydyw' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hynny, gallwch ddod i'r casgliad nad oes ganddo allu i wneud y penderfyniad hwnnw ar yr adeg honno.

Gall fod yn anodd asesu gallu gan fod y prawf yn dibynnu ar ddisgresiwn y person sy'n ei roi. Fodd bynnag, ar yr amod bod gennych 'gred resymol' bod eich asesiad yn gywir, dylech gael amddiffyniad dan y gyfraith.

Cred resymol

Mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid ichi fod â chred resymol bod eich asesiad o allu rhywun yn gywir cyn y cewch weithredu ar ei ran. Mae hynny'n golygu y byddai unrhyw berson rhesymol arall yn dod i gasgliad tebyg i'ch un chi dan yr un amgylchiadau.

Mae'r Ddeddf a'r Cod yn nodi ei bod yn bwysig rhoi'r prawf gallu bob tro y mae angen cymryd cam neu wneud penderfyniad. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd angen asesu gallu rhywun ar bob achlysur os oes angen rhoi cymorth yn aml neu'n barhaus.

Er enghraifft, os ydych yn atwrnai sy'n rheoli materion ariannol rhywun sydd â demensia yn ei gyfnod cynnar, efallai na fydd raid ichi ei gyfweld bob tro y byddwch yn talu bil rheolaidd ar ei ran ar yr amod bod gennych gred resymol ei fod yn dal i fod heb allu i weithredu drosto'i hun ar y mater hwn a'i fod wedi'ch awdurdodi i weithredu felly

Mae'r prawf hwn am 'resymoldeb' yn dibynnu'n rhannol ar rôl yr un sy'n helpu: er enghraifft, byddai disgwyl i dwrnai gyfrannu gwahanol fath o wybodaeth at benderfyniad i'r hyn y byddai perthynas neu atwrnai yn ei gyfrannu os nad ydynt yn weithwyr proffesiynol.

Pwy sy'n cael asesu gallu?

Caiff unrhyw un asesu gallu, yn cynnwys gweithwyr meddygol proffesiynol, cyngorwyr, cyfreithwyr, ffrindiau, perthnasau a gofawyr, ond dylai'r person sy'n asesu fod yn rhywun priodol yng ngolwg y penderfyniad neu'r cam gweithredu sydd dan sylw (er enghraifft, gallai cyngorydd fod yn briodol i asesu gallu sy'n ymwneud â phenderfyniadau am hawlio budd-daliadau ond nid o reidrwydd rhai am ofal personol). Mwyaf pwysig yw'r penderfyniad a wneir, mwyaf ffurfiol y dylai'r asesiad fod. Nid oes unrhyw ffurflenni i'w llenwi i 'brofi' bod rhywun wedi cael ei fod heb allu i wneud penderfyniad, ond dylai'ch cofnodion ddangos sut y gwnaethoch yr asesiad.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes arnoch angen cymorth i ddeall yr agweddau ymarferol ar y modd y dylech chi neu bobl eraill roi'r prawf, dylech ddarllen y canllawiau manwl sydd yn y Cod Ymarfer. Er enghraifft, mae'n egluro ei bod yn ddigon i rywun ond gallu deall yr wybodaeth berthnasol am gyfnod byr a rhoi gwybod am ei benderfyniad yn syml iawn. Mae hefyd yn trafod sut y gallwch helpu'r person i ddeall gwybodaeth, er enghraifft, gallai rhywun sydd ag iselder fod yn fwy galluog i ddelio â phenderfyniadau ar adegau penodol yn ystod y dydd.

Dylid asesu gallu ar gyfer pob penderfyniad penodol. Nid rhywbeth sy'n digwydd unwaith ac am byth yw asesu gallu ac nid yw yr un fath â thicio rhestr wirio. Ym mhob sefyllfa newydd, ar ddechrau cyfweiliad, er enghraifft, neu wrth i benderfyniadau newydd godi, bydd yn rhaid ichi roi'r prawf. Wrth asesu, dylid canfod a yw diffyg gallu y person i wneud penderfyniad yn rhywbeth dros dro (am ei fod wedi cael strôc yn ddiweddar, er enghraifft), pa bryd y gallai newid a beth y gellir ei wneud i helpu a chefnogi'r person fel y bydd yn gallu gwneud y penderfyniad dan sylw. Bydd rhai penderfyniadau y gellir eu gohirio nes bydd y person yn adennill gallu i'w wneud.

Penodedigion

Bydd yn rhaid i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) roi'r prawf gallu a chadw at bum egwyddor y Ddeddf Gallu Meddyliol wrth benderfynu a oes gan rywun allu meddyliol i gadw trefn ar ei fudd-daliadau, fel y bydd unrhyw un arall sy'n gweithredu fel un 'penodedig'.

3. Helpu pobl sydd heb allu i wneud penderfyniadau

Os yw'ch cleient, neu'r un y mae'n gofalu amdano, heb allu i wneud penderfyniad penodol, bydd egwyddorion 4 a 5 yn berthnasol. Bydd pawb sy'n gwneud penderfyniadau neu'n gweithredu ar ran rhywun sydd heb allu yn cael ei rwymo gan yr egwyddorion hyn, pa un a yw'n ofalwr, yn berthynas, yn ffrind, yn gyfreithiwr, yn gynghorydd, yn atwrnai, yn gynrychiolydd i'r llys, neu'n weithiwr proffesiynol o fath arall. Fel gweithiwr cyngtori, bydd yn rhaid ichi weithredu'n unol â'r egwyddorion hyn a bydd angen hefyd ichi allu ystyried a yw eraill sy'n gysylltiedig â'r achos – meddyg teulu'r cleient, er enghraifft, neu'r Adran Gwaith a Phensiynau – wedi dilyn yr egwyddorion.

Egwyddor 4 - 'y budd gorau'

Mae'r egwyddor o weithredu bob amser er y budd gorau i rywun yn rhan hollbwysig o'r Ddeddf Gallu Meddyliol, a dylai fod yn elfen ganolog mewn unrhyw gamau a gymerir ar ran rhywun sydd heb allu. Mae'r Ddeddf yn rhoi rhestr wirio o'r prif ffactorau y mae'n rhaid ichi eu hystyried wrth ganfod beth sydd er y budd gorau i rywun. Nid yw hon yn rhestr lawn a dylech ddarllen y Cod Ymarfer i gael mwy o fanylion, ond mae'n cynnwys:

- Peidiwch byth â rhagdybio dim am y person sydd heb allu ar sail ei olwg, ei oed, ei wedd, ei ymddygiad neu ei gyflwr yn unig. Gallai fod yn berthnasol ystyried pa olwg oedd ar y person y tro diwethaf ichi gwrrdd ag ef, neu'r hyn y mae staff y dderbynfa yn dweud wrthy ch am ei ymddygiad, wrth ichi asesu a yw ei gyflwr yn amrywio, ond ni ddylai hynny arwain at ragfarn yn eich asesiad o'i allu mewn cysylltiad â'r penderfyniadau yr ydych yn eu hystyried.

- Ystyriwch yr holl amgylchiadau perthnasol, gan ddal dewisiadau eraill mewn cof. Er enghraifft, os yw gofalwr yn dymuno i berthynas sydd â demensia datblygedig symud i gartref gofal am ei fod yn credu nad oes ganddo allu i wneud penderfyniadau am fywyd pob dydd, dylech roi gwybod iddo y gallai dewisiadau eraill fod ar gael o ran gofal a thai.
- Ystyriwch ohirio'r penderfyniad os gallai'r person adennill gallu i'w wneud. Er enghraifft, os oes angen gwneud penderfyniad pwysig ar ran rhywun a gafodd strôc yn ddiweddar, gallai fod er y budd gorau iddo aros nes bydd yn adennill gallu i wneud y penderfyniad drosto'i hun.
- Sicrhewch fod y person yn cadw cymaint o reolaeth a chysylltiad ag sy'n bosibl mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.
- Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â thriniaeth y mae ei hangen i gadw rhywun yn fyw (triniaeth i gynnal bywyd), ni ddylai'r un sy'n gwneud y penderfyniad fod wedi'i ysgogi gan awydd i beri marwolaeth.
- Ystyriwch beth fyddai'r un sydd heb allu wedi penderfynu drosto'i hun drwy feddwl am yr hyn sy'n hysbys am ei ddymuniadau a'i deimladau, ei gredoau a'i werthoedd, yn awr ac yn y gorffennol (yn enwedig os ydynt wedi'u cofnodi). Er enghraifft, wrth wneud asesiad o'r budd gorau i rywun sydd bob amser wedi datgan yn blaen nad yw'n dymuno derbyn arian gan elusen, dylid ystyried y farn honno wrth geisio sicrhau'r incwm mwyaf posibl iddo er ei bod yn bosibl na fydd hynny, yn y pen draw, yn atal rhywun rhag gwneud cais am arian gan elusen os penderfynir bod hynny er y budd gorau iddo .
- Ymgynghorwch gymaint ag y bo modd ag eraill, fel aelodau o'r teulu, ffrindiau ac unrhyw ddirprwy neu atwrnai, ac ystyriwch eu barn nhw am yr hyn a fyddai er y budd gorau i'r un dan sylw.

Rhaid ystyried unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth asesu beth sydd er y budd gorau i rywun. Bydd y dull o bwysu a mesur y gwahanol ystyriaethau'n dibynnu ar yr achos dan sylw, ac ar bethau fel brys a phwysigrwydd y penderfyniad. Bydd mwy o ganllawiau ar y modd i bennu'r budd gorau yn y Cod Ymarfer.

Egwyddor 5 – y dewis lleiaf cyfyngiadol

Mae Egwyddor 5 yn dweud y dylech chi neu unrhyw un arall sy'n helpu rhywun sydd heb allu roi ystyriaeth i'r holl ddewisiadau posibl a fydd yn cyfyngu i'r graddau lleiaf posibl ar hawliau a rhyddid y person hwnnw. Mae hynny'n golygu, os byddwch chi neu rywun arall yn gwneud rhywbeth i rywun sydd heb allu, neu'n gwneud rhywbeth ar ei ran, fod rhaid ichi ddewis yr hyn sydd er y budd gorau iddo ([egwyddor 4](#)) a bod rhaid ichi ystyried a allech wneud hynny mewn modd sy'n amharu i lai o raddau ar ei hawliau a'i ryddid i weithredu.

Gellir cael anghydfod wrth benderfynu ar y dull gweithredu gorau ar gyfer rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniad. Mae [Egwyddorion 4 a 5](#) yn dweud bod barn perthnasau neu ofalwyr yn amhrisiadwy, ond y dylid seilio penderfyniadau ar yr hyn sydd orau i'r person dan sylw ac nid ar sail dymuniadau pawb arall. Gweler tudalen 32 am fwy o wybodaeth ynghylch datrys anghydfodau.

Hanes cynghorydd, parhad

Roeddwn yn falch iawn fy mod wedi mynd i weld Ruby: roeddwn yn teimlo fy mod yn deall beth oedd yn mynd ymlaen yn well o lawer. Dydw i ddim wedi cael hyfforddiant meddygol, ond gallwn weld bod llawer o anawsterau'n codi oherwydd y demensia a oedd gan Ruby. Dywedodd wrthyf y bydd yn anghofio cymryd ei meddyginiaeth yn aml, ac na fyddai'n gwybod pryd i wneud bwyd oni bai fod Marie yn galw heibio i'w hatgoffa. Er ei bod yn ddryslyd ar adegau, roedd yn deall yn iawn beth yr oeddem yn sôn amdano, gydag ambell broc i'r sgwrs gan Marie.

Gwnaethom drafod yr holl ddewisiadau ar gyfer Ruby yn y dyfodol, gan gynnwys argymhelliad y meddyg teulu y dylai symud i gartref. Roedd Ruby yn benderfynol ei bod am aros yn ei fflat felly gwnaethom drafod ffyrdd i'w wneud yn fwy diogel. Roedd Ruby yn fodlon derbyn yr awgrym y dylem weld pa gymorth y gall gwasanaethau cymdeithasol ei roi ac roedd yn falch bod Marie yn fodlon galw heibio yn ôl ei harfer i helpu. Cytunodd hefyd i hawlio Lwfans Gweini a Lwfans Gofal iddi hi a Marie.

[Darllenwch ymlaen i weld beth ddigwyddodd nesaf.](#)

4. Cyngtori pobl am gynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae llawer o bobl yn gofyn i gynghorwyr egluro sut y gallant baratoi ar gyfer y dyfodol, drwy wneud ewyllys, er enghraifft, neu nodi beth fyddent am ei weld yn digwydd iddynt pe baent yn colli'r gallu i wneud eu penderfyniadau eu hun. Mae'r Ddeddf yn ffurfioli ac yn newid rhai o'r mesurau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Atwrneiaeth Barhaol

Bydd y Ddeddf yn cyflwyno Atwrneiaeth Barhaol (LPA) newydd a fydd yn cymryd lle system bresennol yr Atwrneiaeth Barhaus (EPA) (gweler tudalen 25).

Mae Atwrneiaeth Barhaol yn galluogi rhywun sydd â gallu meddyliol ac sydd dros 18 oed (y 'rhoddwr') i benodi rhywun arall neu rywrai eraill (ei 'atwrnai/atwrneiod') i wneud penderfyniadau penodol ar ei ran os bydd yn colli gallu i'w gwneud drosto'i hun.

Bydd dau fath o Atwrneiaeth Barhaol:

- Atwrneiaeth Barhaol o ran eiddo a materion ariannol ar gyfer penderfyniadau am faterion ariannol, sy'n debyg i Atwrneiaeth Barhaus. Gellir defnyddio Atwrneiaeth Barhaol o'r math hwn tra bydd y rhoddwr yn dal i fod â gallu, oni bai fod y rhoddwr yn pennu na cheir gwneud hynny.
- Mae Atwrneiaeth Barhaol lles personol yn un na ellir ond ei defnyddio pan nad oes gallu gan y rhoddwr bellach i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ei iechyd neu ei les personol.

Oni bai fod y rhoddwr yn dweud fel arall ar ei ffurflen Atwrneiaeth Barhaol, bydd gan yr atwrnai awdurdod i weithredu ar ran y rhoddwr yn yr holl faterion sydd wedi'u nodi yn yr Atwrneiaeth Barhaol. Fodd bynnag, os yw'r rhoddwr yn dymuno i'w atwrnai wneud penderfyniadau am 'driniaeth i gynnal bywyd' (gweler tudalen 27), bydd yn rhaid iddo nodi hynny ar y ffurflen Atwrneiaeth Barhaol lles personol. Bydd pob atwrnai yn gorfod dilyn pum

egwyddor y Ddeddf gan gynnwys honno sy'n ymwneud â gweithredu er y budd gorau i'r rhoddwr, a bydd dan ddyletswydd gyfreithiol i ddal sylw ar y Cod.

Fel rhan o'ch gwaith, mae'n bosibl y gofynnir ichi sut y gall rhywun wneud Atwrneiaeth Barhaol. Mae dwy ffurflen i'w llenwi gan roddwyr, un ar gyfer pob un o'r ddau fath o Atwrneiaeth Barhaol. Bydd yn rhaid i ffurflenni Atwrneiaeth Barhaol gael eu hardystio a'u cofrestru wedyn (am ffi) gyda Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (OPG, gweler tudalen 34) cyn y gellir eu defnyddio'n gyfreithiol, gan nad yw Atwrneiaeth Barhaol sydd heb ei chofrestru'n rhoi unrhyw bwerau i'r atwrnai. Os yw rhywun am weld a yw Atwrneiaeth Barhaol wedi'i chofrestru, caiff gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus sy'n cadw cofrestr o'r Atwrneiaethau Parhaol. Bydd ffurflenni ar gael ar gyfer gwneud a chofrestru Atwrneiaeth Barhaol oddi wrth Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (a gallwch gael cyngor gan y swyddfa hefyd ynghylch llenwi'r ffurflenni). Byddant ar gael hefyd gan lyfrwerthwyr cyfreithiol.

Atwrneiaeth Barhaus

Ceir Atwrneiaeth pan fydd rhywun yn dirprwyo'r pŵer i reoli ei faterion ariannol i rywun y mae'n ymddiried ynddo, sy'n dod yn 'atwrnai' iddo. Mae system ar waith eisoes i alluogi pobl i benodi atwrneiod ar gyfer materion ariannol o'r enw Atwrneiaeth Barhaus (EPA)

Os oes Atwrneiaeth Barhaus gan rywun ar hyn o bryd, bydd yn dal i fod yn ddilys a gellir ei chofrestru wedi i'r Ddeddf Gallu Meddyliol ddod i rym, er na ellir gwneud rhai newydd ar ôl 1 Hydref 2007. Os ydych yn atwrnai eisoes, a'r Atwrneiaeth Barhaus wedi'i chofrestru am nad yw'r rhoddwr yn alluog bellach i wneud penderfyniadau ariannol drosto'i hun, cewch fynd ymlaen fel yr oeddech o'r blaen. Os nad yw'r Atwrneiaeth Barhaus wedi'i chofrestru ac os na fydd y rhoddwr yn alluog i wneud penderfyniadau ariannol ar ryw

adeg wedi i'r Ddeddf Gallu Meddyliol ddod i rym, bydd yn rhaid cofrestru'r Atwrneiaeth Barhaus cyn y caiff yr atwrnai barhau i'w defnyddio.

Wedi i'r Ddeddf ddod i rym, os yw'r rhoddwr yn dal i fod â gallu, caiff gadw'r Atwrneiaeth Barhaus ar gyfer penderfyniadau ariannol, ei diddymu a rhoi Atwrneiaeth Barhaol eiddo a materion ariannol yn ei lle, neu ei chadw a gwneud Atwrneiaeth Barhaol ar gyfer lles personol hefyd.

Ni fydd y Ddeddf newydd yn effeithio ar Atwrneiaethau eraill.

Bydd pwerau gan y Llys Gwarchod i ddiddymu Atwrneiaethau Parhaol ac Atwrneiaethau Parhaus os cânt eu camddefnyddio. Bydd canllawiau a manylion pellach ar gael am ddyletswyddau a chyfrifoldebau atwrneiod oddi wrth Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus a dylech hefyd ddarllen y Cod Ymarfer.

Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofynion penodol ar gyfer sefyllfa lle bydd rhywun 18 oed neu drosodd yn penderfynu gwrthod triniaeth feddygol y gellid ei chynnig iddo yn y dyfodol pan nad yw'n alluog i wrthod neu dderbyn y driniaeth. Penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth yw'r enw ar y rhain (fel 'penderfyniadau ymlaen llaw' y cyfeirir atynt yn yr arweiniad hwn) a gallant gynnwys yn benodol benderfyniad i wrthod triniaeth i gynnal bywyd.

Triniaeth i gynnal bywyd

Triniaeth y mae'r darparwr gofal iechyd yn credu ei bod yn angenrheidiol i gadw rhywun yn fyw. Gall gynnwys maethu a hydradu artiffisial.

Ni chaiff rhywun wneud penderfyniad ymlaen llaw i ofyn am driniaeth feddygol – nid yw ond yn cael dweud pa fathau o driniaeth y byddai'n eu gwrthod. Nid yw ychwaith yn cael gwneud penderfyniad ymlaen llaw i ofyn am derfynu ei einioes.

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno rheolau a mesurau diogelwch newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ymlaen llaw. Mae penderfyniadau ymlaen llaw yn gyfreithiol rwymol a rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol eu dilyn, ar yr amod eu bod yn unol â'r rheolau, hyd yn oed os yw hynny'n arwain at farwolaeth y rhai sydd wedi'u gwneud.

Rhaid bod â gallu meddyliol i wneud penderfyniad ymlaen llaw. Dylid egluro yn y penderfyniadau ymlaen llaw pa driniaethau y mae rhywun yn eu gwrthod (er nad oes angen defnyddio termau meddygol manwl) ac egluro at ba amgylchiadau y mae'r gwrthodiad yn cyfeirio. Nid oes raid gwneud penderfyniad ymlaen llaw mewn ysgrifen, ond drwy ei ysgrifennu a'i drafod gydag eraill sy'n gysylltiedig (fel staff gofal iechyd ac aelodau'r teulu) gellir helpu i osgoi dryswch yn ddiweddarach neu heriau ynghylch ei ddilysrwydd a'i gwmpas.

Mae gofynion ychwanegol ar gyfer penderfyniadau ymlaen llaw i wrthod triniaeth i gynnal bywyd. Er enghraifft, rhaid iddynt gael eu hysgrifennu, eu llofnodi a'u hardystio a chynnwys datganiad penodol sy'n dweud bod y penderfyniad ymlaen llaw i gael ei gymhwyso hyd yn oed os yw ei fywyd mewn perygl.

Penderfyniadau ymlaen llaw neu 'ewyllysiau byw' sy'n bod eisoes

Efallai y bydd gennych gleientiaid sydd eisoes wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw neu 'ewyllys fyw' fel y mae'n cael ei alw weithiau. Dylech eu cynghori i sicrhau ei fod yn unol â'r rheolau newydd, yn enwedig os yw'n ymwneud â thriniaeth i gynnal bywyd. Bydd canllawiau manylach ar gael yn: www.dh.gov.uk/consent

Cofiwch y gellir trin pobl sydd wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 am anhwylder meddyliol heb gael eu caniatâd, felly gallant gael triniaeth o'r fath hefyd er eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw i wrthod y driniaeth.

Os oes angen ichi gynghori cleient am benderfyniadau ymlaen llaw, dylech ddarllen y Cod Ymarfer a chwilio yn y rhestr o gysylltiadau a ffynonellau gwybodaeth eraill (yng nghefn y llyfryn hwn) am gyrrff eraill sy'n gallu cynnig cymorth.

Dymuniadau a theimladau ynghylch gofal a thriniaeth

Dan y Ddeddf newydd, bydd pobl hefyd yn gallu ysgrifennu datganiad neu ddweud wrth eraill am eu dymuniadau a'u dewisiadau ynghylch gofal a thriniaeth yn y dyfodol, ac egluro'r teimladau a'r gwerthoedd a arweiniodd at y penderfyniadau hynny. Gall y datganiadau hynny gyfeirio at unrhyw beth a gallant gynnwys ceisiadau am rai mathau o driniaeth neu ddewisiadau personol fel cael cawod yn hytrach na bath, neu ddymuniad i gael cysgu a'r golau ymlaen. Rhaid ystyried datganiadau o'r fath wrth benderfynu beth sydd er y budd gorau iddynt (yn enwedig os ydynt wedi'u hysgrifennu) ond nid ydynt yn gyfreithiol rwymol yn yr un modd â phenderfyniadau ymlaen llaw ac nid oes raid eu dilyn os na fyddai hynny er y budd gorau yn gyffredinol i'r person dan sylw.

5. Ym mha ffordd arall y gallai'r Ddeddf newydd effeithio ar fy ngwaith?

Cam-drin rhywun sydd heb allu neu ei esgeuluso'n fwriadol

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol yn cyflwyno trosedd newydd, sef cam-drin rhywun (o unrhyw oed) sydd heb allu neu ei esgeuluso'n fwriadol. Ei amcan yw atal pobl rhag difrio neu gam-drin rhai sydd heb allu neu eu hesgeuluso'n fwriadol. Bydd y trosedd yn gymwys i unrhyw un sydd â gofal am ('has care of') y person a gall arwain at ddedfryd o garchar neu ddirwy.

Daw'r rhan hon o'r Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2007.

Os ydych yn credu bod rhywun yn difrio neu'n cam-drin rhywun, neu'n ei esgeuluso'n fwriadol, dylech gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol

Amddiffyniad rhag atebolrwydd i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol

Wrth helpu rhywun sydd heb allu, mae bosibl y bydd gofalwr neu weithiwr proffesiynol yn gorfod gwneud rhywbeth drosto a allai fod yn ymosodiad, er enghraifft, neu'n lladrad, dan y gyfraith. Er enghraifft, os bydd rhywun heb allu i gymryd bath ei hun ac os yw'r gofalwr yn gwneud hynny drosto, gallai'r gofalwr fod yn cyflawni ymosodiad arno drwy ei gyffwrdd heb gael ei ganiatâd, er nad oedd wedi cael unrhyw fath o niwed.

Bydd y rheolau hyn yn gymwys i bawb sy'n gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb allu. Fel cynghorydd, mae'n bosibl y bydd perthnasau'n gofyn i chi a ydynt wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd am eu gweithredoedd, neu efallai y byddwch am sicrhau bod y camau gweithredu a'r penderfyniadau gennych chi ar ran cleient sydd heb allu yn debygol o fod yn gyfreithlon.

Bydd y Ddeddf yn cynnig amddiffyniad i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol rhag atebolwydd ar yr amod bod ganddynt 'gred resymol' (gweler tudalen 19) bod y person heb allu a bod eu gweithredoedd er y budd gorau i'r person dan sylw. Mae hynny'n golygu, hyd yn oed os nad ydych yn gallu dangos eich bod wedi gwneud asesiad llawn mewn cysylltiad â gallu neu'r budd gorau ym mhob achos, y byddai cred sy'n seiliedig ar resymau da (nid rhagdybiaeth yn unig), sy'n gydnaws ag egwyddorion y Ddeddf, yn gallu eich amddiffyn.

Ni fydd gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hamddiffyn rhag atebolwydd os byddant yn defnyddio ataliad neu'n cyfyngu ar ryddid, oni bai eu bod yn gwneud hynny am eu bod yn credu'n rhesymol bod hynny'n angenrheidiol i atal niwed i'r person sydd heb allu. Rhaid i raddau'r ataliad fod yn gymesur â'r tebygolrwydd a graddau'r niwed.

Gan ei bod yn bosibl y bydd dadlau ynghylch gweithredoedd neu benderfyniadau o'r fath, mae'n syniad da cofnodi'n glir unrhyw gamau a gymerwch mewn cysylltiad â gallu. Bydd manylder y cofnodion yn dibynnu ar ddirifoldeb y camau gweithredu.

I gael mwy o wybodaeth am atebolwydd gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol, darllenwch y Cod Ymarfer.

Cymryd rhan mewn ymchwil

Mae'r Ddeddf yn pennu fframwaith clir ar gyfer llawer o fathau o ymchwil sy'n cynnwys pobl sydd heb allu fel y gallant gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil o'r fath. Os ydych yn rhoi cyngor i rywun sydd am gael gwybod am ymchwil, darllenwch y Cod Ymarfer i gael mwy o wybodaeth neu atgyfeiriwch y cleient i sylw cynghorydd arbenigol. Mae gwybodaeth mewn llyfrynnau eraill yn y set hon a fydd o ddefnydd i chi.

Datrys anghydfodau a hawliau apêl

Os yw'ch cleient yn anfodlon ar ganlyniad asesiad gallu, neu benderfyniadau a wnaed ar ei ran (gan gynnwys rhai gan ei atwrnai neu ddirprwy), neu ar y modd y mae ef neu'r un y mae'n gofalu amdano'n cael ei drin, mae'n bosibl y bydd angen ichi ei helpu i ddatrys yr anghydfod.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai fod yn bosibl datrys yr anghydfod rhwng y rhai sy'n gysylltiedig drwy gamau anffurfiol. Os na fydd hynny'n llwyddo, dylid rhoi cynnig ar ddull mwy ffurfiol, drwy wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r corff, er enghraifft, neu drwy gwyno wrth ombwdsmon. Mewn rhai sefyllfaoedd, fel anghydfodau rhwng aelodau'r teulu, mae'n bosibl y ceir ateb drwy wasanaeth cyfryngu. Gweler tudalen 43 am restr o gysylltiadau defnyddiol.

Os bydd rhywun yn anghytuno â chanlyniad prawf gallu, dylai godi'r mater gyda'r un a wnaeth yr asesiad. Bydd yr asesydd yn gorfod dangos ei fod wedi cynnal y prawf yn gywir ac wedi cadw at y pum egwyddor; os mai gweithiwr proffesiynol a wnaeth yr asesiad, bydd yn rhaid iddo ddangos hefyd ei fod wedi dal sylw ar y Cod Ymarfer.

Os bydd rhywun yn anfodlon ar y modd y mae atwrnai neu ddirprwy yn gweithredu ar ran person sydd heb allu (gan gynnwys y person ei hun), bydd yn gallu rhoi gwybod am ei bryderon hefyd i Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (OPG) (gweler tudalen 34). Bydd y swyddfa hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol hefyd am anghydfodau dan Ddeddf Gallu Meddyliol.

Os na ellir datrys yr anghydfod drwy'r un o'r dulliau uchod, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ei roi gerbron y Llys Gwarchod (gweler tudalen 34). Bydd mwy o wybodaeth ar gael gan Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Gyhoeddus (gweler tudalen 34) am fynediad i'r Llys Gwarchod a sut i ofyn am ganiatâd i gychwyn achos llys yn ddiweddarach yn 2007. Dylech gysylltu'n gyntaf ag Uned Gyswilt Cwsmeriaid Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus a bydd yn gallu rhoi cyngor i chi.

Hanes cynghorydd, parhad

Es i weld Ruby eto i ddweud wrthi beth yr oeddwn wedi cael gwybod. Roedd hi a Marie yn awyddus iawn i dderbyn y cymorth a oedd ar gael, ac roedd Ruby yn arbennig o frwd ynghylch y dewis o gael prydau bwyd gan y gwasanaeth pryd ar glud. Roedd un broblem o hyd, fodd bynnag, sef bod Ruby yn poeni y gallai ei meddyg geisio gwneud iddi symud eto yn y dyfodol. Dywedodd hi y byddai'n gallu bod yn dawel ei meddwl os byddai ef yn derbyn ei bod hi'n gallu gwneud y penderfyniadau o ddydd i ddydd i'w galluogi i aros yn ei chartref.

Ar adeg fy ymweliad diwethaf, roedd Marie wedi sôn bod Ruby yn credu bod y meddyg teulu'n ymateb yn ddifeddwl dim ond am fod demensia ganddi. Roeddwn yn gallu ei sicrhau na ddylai ei salwch fod yn ffactor tyngedfennol ynghylch dyfodol Ruby, er ei fod yn berthnasol.

Soniais wrth y ddwy ohonynt am y rheolau newydd sy'n dweud, os nad ydych yn fodlon ar asesiad o'ch gallu meddyliol, y dylech godi'r mater yn gyntaf â'r un a wnaeth yr asesiad. Gwnaethom gytuno y bydd Marie yn mynd gyda Ruby at ei meddyg ac yn trafod y mater – mae'n bosibl nad yw'n fwy na chamddealltwriaeth neu ei fod heb wybod am y cymorth a gafodd. Yn y cyfamser, byddaf yn cael gafael ar gopi o weithdrefn gwyno'r GIG i weld beth fydd yn rhaid i ni ei wneud os bydd angen i ni godi'r mater yn fwy ffurfiol. Os bydd hynny'n methu, dywedais wrth Ruby y gallai fynd â'i hachos i'r Llys i apelio yn erbyn asesiad y meddyg teulu ond fy mod yn credu ei bod yn debyg o gael ei ddatrys ymhell cyn hynny. Roedd Ruby yn ymddangos yn llawer mwy tawel ei meddwl na'r tro cyntaf imi ymweld, ac roedd yn awyddus i ddarllen y fwydlen ar gyfer yr wythnos wedyn.

6. Pwy sy'n gallu helpu?

Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (OPG)

Mae'r Ddeddf yn creu swyddog cyhoeddus newydd – y Gwarcheidwad Cyhoeddus a gaiff gymorth gan Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (OPG) newydd. Prif swyddogaethau Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Gyhoeddus fydd:

- sefydlu a chadw cofrestr o Atwrneiaethau Parhaol ac Atwrneiaethau Parhaus
- sefydlu a chadw cofrestr o ddirprwyon sydd wedi'u penodi gan y Llys
- goruchwylio dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y Llys
- darparu gwybodaeth i'r Llys Gwarchod.

Bydd Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus yn darparu Uned Gyswilt Cwsmeriaid a fydd yn bwynt cyswilt cyntaf i unrhyw un sydd am gael gwybodaeth gyffredinol am y Ddeddf Gallu Meddyliol, cyngor ynghylch dod yn atwrnai neu'n ddirprwy ac ynghylch gwneud neu gofrestru Atwrneiaethau Parhaol neu gofrestru Atwrneiaethau Parhaus.

Y Llys Gwarchod

Yn lle'r Llys Gwarchod presennol, ceir Llys Gwarchod newydd (y cyfeirir ato fel 'y Llys' yn yr arweiniad hwn), ac iddo awdurdodaeth ehangach. Er y bydd y Llys â'i ganolfan yn Llundain, bydd barnwyr llys yn gallu gwrando achosion ledled Cymru a Lloegr.

Bydd y Llys Gwarchod yn delio â'r holl faterion sy'n ymwneud â Deddf Gallu Meddyliol, gan gynnwys iechyd a lles ac eiddo a materion ariannol rhai sydd heb allu, a materion sy'n ymwneud â gallu meddyliol sy'n cael eu trafod gan lysoedd eraill ar hyn o bryd. Bydd yn arbennig o bwysig o ran datrys achosion cymhleth neu rai lle mae anghytundeb sy'n ymwneud, er enghraifft, â dadl

ynghylch a yw rhywun heb allu neu beth sydd er y budd gorau iddo. Bydd rhai penderfyniadau sydd mor bwysig fel y byddant yn mynd gerbron y Llys bob tro. Ymhlith y penderfyniadau hynny, mae rhai sy'n ymwneud â materion meddygol difrifol fel rhoi organau, anffrwythloni, erthylu neu'r posibilrwydd o farwolaeth.

Fel arfer, bydd yn rhaid cael caniatâd gan y Llys cyn gwneud cais. Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau o bobl a fydd â hawl i fynd â'u hachos yn syth i'r llys. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am hyn.

Os oes achos cymhleth neu bwysig gan eich cleient, mae'n debyg mai'r peth gorau fyddai ei gyfeirio i sylw twrnai sy'n arbenigo mewn materion sy'n ymwneud â gallu meddyliol (gweler y Cysylltiadau Defnyddiol ar dudalen 43). Bydd yn gallu egluro'r rheolau ar gyfer ymgeisio i'r Llys a'i helpu i wneud cais.

Pan ddaw'r Ddeddf newydd i rym, byddwch yn gallu cael mwy o wybodaeth am fynediad i'r Llys Gwarchod ar wefan Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus neu gan Uned Gyswilt Cwsmeriaid Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus.

Dirprwyon y Llys Gwarchod

Os bydd y Llys yn penderfynu bod angen iddo ymwneud yn barhaus â'r achos, er enghraifft, os oes angen i rywun wneud nifer o benderfyniadau ar ran rhywun, gall benodi 'dirprwy' (neu ddirprwyon ar y cyd).

Bydd system bresennol y derbynyddion, a benodir gan y llys i ddelio ag eiddo a materion ariannol rhywun sydd heb allu, yn dod i ben. Yn wahanol i dderbynyddion, gellid penodi dirprwyon i ddelio â phenderfyniadau ynghylch lles personol neu rai ariannol, fel y mae'r Llys yn pennu. Gallai cwmpas eu hawdurdod fod yn gyfyngedig iawn neu'n eithaf eang yn ôl penderfyniad y Llys am y graddau y mae angen iddo gymryd rhan.

Y 'derbynyddion' presennol

Hyd at Hydref 2007, os bydd rhywun sydd heb allu yn berchen ar asedau fel eiddo a chyfranddaliadau, bydd y Llys Gwarchod presennol yn gallu penodi derbynydd i reoli ei fuddiannau ariannol. Pan ddaw'r Ddeddf i rym, bydd y derbynyddion presennol yn dal i weithredu yn yr un modd, ond byddant yn cael eu galw'n ddirprwyon dros faterion ariannol. Anfonir mwy o wybodaeth at dderbynyddion yn agosach at Hydref 2007.

Rhai y gellid eu penodi'n ddirprwy yw'r gofalwr sy'n gysylltiedig, gweithiwr proffesiynol (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion, er enghraifft), neu sefydliad ariannol, yn ôl anghenion yr achos. Os oes gennych gleient sy'n dymuno ymgeisio i ddod yn ddirprwy i rywun, dylai gysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus i gael mwy o wybodaeth am hyn.

Ymwelwyr y Llys Gwarchod

Bydd y Llys yn gallu anfon 'Ymwelwyr' swyddogol i ymweld â rhai sydd ag atwrneiod neu ddirprwyon yn gweithredu ar eu rhan. Caiff ymwelwyr holi ynghylch lles cyffredinol rhywun neu ymchwilio os amheuir bod problemau a gallant hefyd gynnig cymorth a chynghor. Byddant yn rhoi adroddiadau am eu hymweliadau i'r Llys neu i Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus.

Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA)

Ar hyn o bryd, os oes rhywun sydd heb unrhyw un i'w helpu a'i gefnogi pan fydd yn gwneud penderfyniadau, gallwch ei atgyfeirio i sylw gwasanaeth eirioli lleol. Byddwch yn dal i allu gwneud hynny wedi i'r Ddeddf ddod i rym, ond bydd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol newydd ar gyfer rhai mathau o benderfyniadau. Trefnir y gwasanaeth newydd fel y bydd yn cynnig cymorth ychwanegol i rai sydd heb allu neu

sy'n arbennig o agored i niwed am nad oes ganddynt atwrnai, dirprwy, ffrindiau agos, aelodau o'u teulu neu ofalwyr sy'n gallu eu cynorthwyo.

Yn gyffredinol, bydd y gwasanaeth hwn yn ymwneud â phenderfyniadau am driniaeth feddygol bwysig a roddir gan y GIG a newidiadau o ran llety tymor hir os nad oes unrhyw un priodol y gellir ymgynghori ag ef. Bydd yn ddyletswydd ar y person yn y GIG, yr awdurdod lleol (yn Lloegr) neu'r bwrdd iechyd lleol (yng Nghymru) sy'n gwneud y penderfyniad, i gynnwys y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol. Nid y gwasanaeth hwnnw fydd yn penderfynu, ond bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad dan ddyletswydd i ystyried yr wybodaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i rhoi iddo.

Os oes gennych gleient sy'n gorfod gwneud penderfyniad pwysig am un o'r materion hyn, dylech drin yr achos hwnnw'n debyg iawn i'r modd yr ydych yn gwneud yn awr, drwy ei atgyfeirio i'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol neu'r GIG, a dylai'r rhain gysylltu â'r Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol. Darllenwch y Cod Ymarfer i gael mwy o fanylion.

Yn Lloegr, bydd pwerau hefyd gan awdurdodau lleol a'r GIG i ymestyn y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol i gynnwys adolygiadau gofal am lety ac achosion amddiffyn oedolion os ydynt yn credu y byddai hynny'n llesol. Yng Nghymru, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi'n ddiweddarach yn 2007 a fydd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn cael ymestyn y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol i gynnwys adolygiadau gofal ac achosion amddiffyn oedolion.

Er na fydd y rhan fwyaf o'r Ddeddf yn dod i rym tan Hydref 2007, bydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol yn Lloegr yn dechrau gweithredu yn Ebrill 2007. Ar yr un dyddiad, cyflwynir rhannau hanfodol eraill o'r Ddeddf (yr egwyddorion, asesu gallu, pennu'r budd gorau) hefyd, ond dim ond mewn cysylltiad â chynnal gweithrediadau'r Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol.

Bydd y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol yng Nghymru'n dechrau gweithredu yn Hydref 2007.

7. Egluro termau

Y term	Beth mae'n ei olygu yn Neddf Gallu Meddyliol
Penderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth ('Advance decision to refuse treatment')	Lle bydd rhywun sydd â gallu meddyliol yn penderfynu gwrthod triniaeth feddygol y gellid ei chynnig iddo yn y dyfodol pan na fydd yn gallu gwrthod neu dderbyn y driniaeth ei hun. Gall nodi fod y penderfyniad i'w gymhwyso hyd yn oed os oes perygl i einioes.
Atwrnai ('Attorney')	Rhywun sy'n cael pŵer i weithredu ar ran rhoddwr drwy Atwrneiaeth Barhaol neu Atwrneiaeth Barhaus
Gallu ('Capacity')	Gair am y gallu meddyliol sydd gan rywun i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol, boed yn un bach, fel penderfynu pa bryd i fwyta, neu'n un mawr, fel penderfynu i symud ty
Cod Ymarfer ('Code of Practice')	Mae'n rhoi canllawiau ymarferol ar Ddeddf Gallu Meddyliol ac yn egluro'n fanylach y prif nodweddion sydd i'r Ddeddf newydd. Bydd rhai pobl dan ddyletswydd i ddal sylw ar y Cod.
Y Llys Gwarchod ('Court of Protection')	Y llys arbenigol newydd a fydd yn delio ag achosion sy'n ymwneud â gallu
Ymwelydd y Llys Gwarchod ('Court of Protection Visitor')	Rhywun sy'n cael ei anfon gan y Llys neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymweld â phobl sydd â dirprwyon neu atwrneiod yn gweithredu ar eu rhan i holi ynghylch eu lles cyffredinol neu i ymchwilio os amheuir bod problemau. Gallant gynnig cymorth a chyngor, a/neu adrodd i'r Llys neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
Dirprwy ('Deputy')	Rhywun sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod i ddelio â mater penodol neu amryw o faterion i helpu rhywun sydd heb allu os nad oes ganddo atwrnai.
Rhoddwr ('Donor')	Rhywun sy'n penodi atwrnai (drwy wneud Atwrneiaeth Barhaol neu Atwrneiaeth Barhaus)

Y term	Beth mae'n ei olygu yn Neddf Gallu Meddyliol
Atwrneiaeth Barhaus ('Enduring Power of Attorney' (EPA))	Lle bydd rhywun (y rhoddwr) yn penodi rhywun arall (atwrnai) i weithredu ar ei ran mewn cysylltiad â'i eiddo a'i faterion ariannol. Ni ellir gwneud Atwrneiaethau Parhaus newydd ar ôl 1 Hydref 2007 ond bydd y rhai sy'n bod eisoes yn dal i fod yn ddilys.
Gallu amrywiol ('Fluctuating capacity')	Lle bydd gan rywun allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun ar rai adegau, ond nid ar adegau eraill (er enghraifft, mewn cyfnod aciwt yn ystod salwch seicotig)
Eiriolwr Gallu Medduliol Annibynnol ('Independent Mental Capacity Advocate')	Os nad oes cymorth personol gan rywun sydd heb allu, fel aelod o'i deulu, ffrindiau, atwrnai neu ddirprwy, penodir eiriolwr o'r math hwn pan fo angen gwneud penderfyniad pwysig am driniaeth feddygol sylweddol neu ofal tymor hir, i helpu i'w gynrychioli ac i helpu i asesu i ganfod beth sydd er y budd gorau iddo. Gellir penodi eiriolwr o'r fath hefyd ar gyfer adolygiadau gofal ynghylch llety ac ar gyfer achosion amddiffyn oedolion
Heb allu ('Lacking capacity')	Lle nad yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniad penodol ar adeg benodol oherwydd effaith ar weithrediadau ei feddwl neu ei ymennydd (er enghraifft, oherwydd strôc neu anaf i'r ymennydd, problem iechyd meddwl neu anabledd dysgu). Bydd llawer o bobl heb allu mewn cysylltiad â rhai materion neu ar rai adegau, ond bydd ganddynt allu yn achos materion eraill neu ar adegau eraill

Term	Beth mae'n ei olygu yn Neddf Gallu Meddyliol
Atwrneiaeth Barhaol ('Lasting Power of Attorney' (LPA))	<p>Dogfen gyfreithiol lle bydd rhywun (y rhoddwr) yn penodi rhywun arall (atwrnai) i wneud penderfyniadau am rai pethau ar ei ran yn y dyfodol. Mae dau fath o Atwrneiaeth Barhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Atwrneiaethau Parhaol Lles Personol na ellir ond eu defnyddio os yw'r rhoddwr heb allu i wneud penderfyniadau perthnasol ynghylch iechyd neu les • Atwrneiaethau Parhaol Eiddo a Materion Ariannol y gellir eu defnyddio pa un a oes gan rywun allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun neu beidio, oni bai ei fod wedi pennu fel arall yn ei Atwrneiaeth Barhaol
Gwarcheidwad Cyhoeddus / Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus ('Public Guardian' (PG) / 'Office of the Public Guardian' (OPG))	Bydd yn monitro dirprwyon sydd wedi'u penodi gan y Llys, yn cadw cofrestr o atwrneiod a dirprwyon, ac yn ymchwilio i bryderon yn eu cylch. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y Ddeddf, cyngor ar ddod yn ddirprwy, gwneud Atwrneiaethau Parhaol a chofrestru Atwrneiaethau Parhaol ac Atwrneiaethau Parhaus
Cred resymol ('Reasonable belief')	Cyn y cewch weithredu ar ran rhywun, rhaid ichi fod â chred resymol bod eich asesiad o'i allu yn gywir. Mae hynny'n golygu bod rhaid ichi allu cyfeirio at resymau gwrthrychol dros eich cred.
Derbynydd ('Receiver')	Rhywun sydd wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod presennol i ofalu am fuddiannau ariannol rhywun sydd heb allu. O Ebrill 2007 bydd derbynyddion yn cael eu hadnabod fel dirprwyon materion ariannol

8. Beth os ydw i am wybod mwy am y Ddeddf Gallu Meddyliol?

Os hoffech gael gwybod mwy am Ddeddf Gallu Meddyliol gallwch alw 0845 330 2900 neu anfon neges e-bost i makingdecisions@dca.gsi.gov.uk

Rhai o'r ffynonellau eraill lle cewch arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol yw:

Teitl	Ar gael o
Llyfrynau gwybodaeth eraill fel hwn	Gallwch weld y rhain ar ffurf electronig drwy fynd i: www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm Os ydych am archebu copiau caled, anfonwch neges e-bost i: reorder@inprintlitho.com
Deddf Gallu Meddyliol 2005	Gallwch ei gweld am ddim drwy fynd i: www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm Neu gallwch archebu copi caled oddi wrth y Llyfrfa drwy alw 0870 600 5522 neu anfon neges e-bost i customerservices@tso.co.uk
Y Cod Ymarfer ar gyfer Deddf Gallu Meddyliol	Pan gyhoeddir y Cod, byddwch yn gallu ei lawrlwytho am ddim drwy fynd i: www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/index.htm Gallwch archebu copi caled oddi wrth y Llyfrfa drwy alw 0870 600 5522 neu anfon neges e-bost i customerservices@tso.co.uk
Gwybodaeth am y Gwasanaeth Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) a'r cynlluniau peilot a'r deunyddiau hyfforddi ar ei gyfer	www.dh.gov.uk/imca

9. Rhai cysylltiadau defnyddiol

Mae'r adrannau llywodraeth canlynol yn cydweithio i weithredu Deddf Gallu Meddyliol yn 2007

Adran	Ei phwrpas a'i gwaith	Manylion cysylltu
Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA)	Rhai o'i chyfrifoldebau yw rhedeg y llysoedd, a gwella'r system cyfiawnder, hawliau dynol, cyfraith hawliau i weld gwybodaeth, polisi ar redeg etholiadau a moderneiddio'r cyfansoddiad	5th Floor Steel House, 11 Tothill St, Llundain, SW1H 9LH www.dca.gov.uk/ E makingdecisions@dca.gsi.gov.uk
Adran Iechyd (DH)	Un o'i chyfrifoldebau yw pennu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r Adran yn gosod safonau ac yn hyrwyddo camau i foderneiddio pob rhan o'r GIG, gofal cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus	Wellington House, 133-155 Waterloo Road, Llundain, SE1 3UG www.dh.gov.uk T 020 7210 4850
Swyddfa'r Gwarcheidiaeth Cyhoeddus (PGO)	Cangen weinyddol y Llys Gwarchod a rhan o'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Mae'n darparu gwasanaethau gwarchod ariannol i gleientiaid nad ydynt yn gallu rheoli eu materion ariannol am eu bod heb allu	Archway Tower, 2 Junction Road, Llundain, N19 5SZ www.guardianship.gov.uk T 0845 330 2900 E custserv@guardianship.gsi.gov.uk
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Mae'n datblygu polisi ac yn cymeradwyo deddfwriaeth sy'n adlewyrchu anghenion pobl Cymru.	Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ www.wales.gov.uk T 029 2082 5111

Manylion cysylltu ar gyfer nifer o gyrff sydd â diddordeb yn Neddf Gallu Meddyliol

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
Action for Advocacy	Asiantaeth cymorth ac adnoddau ar gyfer y sector eiriolaeth; gwybodaeth, hyfforddiant a chynghor	PO Box 31856, Lorrimore Square, Llundain, SE17 3XR www.actionforadvocacy.org
Age Concern England	Y corff mwyaf yn y DU sy'n gweithio i hyrwyddo lles pobl hŷn yn gyffredinol. Mae'n darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chymorth hanfodol i filoedd o bobl hŷn o bob oed a chefnidir	Astral House, 1268 London Road, Llundain, SW16 4ER www.ageconcern.org.uk www.acymru.org.uk Llinell wybodaeth 0800 00 99 66
Cymdeithas Alzheimer	Y brif elusen gofal ac ymchwil yn y DU ar gyfer pobl sydd â demensia, eu teuluoedd a'u gofalwyr	Gordon House, 10 Greencoat Place, Llundain, SW1P 1PH www.alzheimers.org.uk Llinedd gymorth 0845 300 0336
ASA ADRnow	Gwefan sy'n cynnig gwybodaeth annibynnol am amrywiaeth fawr o ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau, fel y gall cynghorwyr a'r cyhoedd wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y modd gorau i ddatrys anghydfod	www.adrnow.org.uk
ASA Advice	Gwefan annibynnol di-elw sy'n rhoi gwybodaeth gywir a chyfoes am hawliau a materion cyfreithiol	www.advicenow.org.uk
Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)	Mae'r BMA yn cynrychioli meddygon ym mhob cangen o feddygaeth ledled y DU	BMA House, Tavistock Square, Llundain, WC1H 9JP www.bma.org.uk T 020 7387 4499 F 020 7383 6400

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
Carers UK	Mae'n gofalu am bartneriaid, ffrindiau ac aelodau teuluol sydd ag angen cymorth am eu bod yn sâl, yn eiddil, neu am fod ganddynt anabledd	20/25 Glasshouse Yard, Llundain, EC1A 4JT www.carersuk.org T 020 7566 7637 F 020 7490 8824
Canolfannau Cyngor ar Bopeth (CABx)	Maent yn helpu pobl i ddatrys problemau cyfreithiol ac ariannol a phroblemau eraill drwy roi cyngor a gwybodaeth am ddim	Myddelton House, 115-123 Pentonville Road, Llundain, N1 9LZ www.citizensadvice.org.uk T 020 7833 2181 Gallwch ddod o hyd i'r ganolfan CAB leol drwy fynd i'w gwefan neu edrych dan 'Citizens Advice Bureaux' yn Y Llyfr Ffôn.
Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS Direct)	Mae CLS Direct yn wasanaeth cyfrinachol sydd ar gael am ddim i helpu pobl i ddelio â'u problemau cyfreithiol. Mae ei wefan yn cynnwys cronfa ddata o gyfreithwyr ac amryw o daflenni gwybodaeth gyfreithiol	www.clsdirect.org.uk T 0845 345 4 345
Cymdeithas Syndrom Down	Mae'n rhoi cymorth a gwybodaeth i bobl sydd â Syndrom Down, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac yn cynnig adnoddau i weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb yn y syndrom	Langdon Down Centre, 2a Langdon Park, Teddington, Middlesex, TW11 9PS www.dsa-uk.com T 0845 230 0372 F 0845 230 0373
Y Sefydliad dros Bobl ag Anableddau Dysgu	Mae'n gweithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'r rhai sy'n eu cynorthwyo i wella eu hansawdd bywyd a hyrwyddo hawliau, ansawdd bywyd a chyfleoedd pobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Sea Containers House, 20 Upper Ground, Llundain, SE1 9QB www.learningdisabilities.org.uk T 020 7803 1100

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
Headway – the brain injury association	Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r holl agweddau ar anaf i'r ymennydd, ac yn darparu cymorth, gwybodaeth a gwasanaethau i rai a gafodd anaf i'r ymennydd, eu teuluoedd a'u gofalwyr	4 King Edward Court Service, King Edward Street, Nottingham, NG1 1EW www.headway.org.uk Linell gymorth 0808 800 2244
Ffederasiwn Canolfannau Cyfraith	Y corff cenedlaethol ar gyfer rhwydwaith o Ganolfannau Cyfraith yn y gymuned. Mae Canolfannau Cyfraith yn rhoi cymorth i ddatrys problemau pob dydd, fel cael lle gweddus i fyw, delio â gwahaniaethu, neu gael y budd-daliadau priodol	Duchess House, 18–19 Warren Street, Llundain W1T 5LR. www.lawcentres.org.uk T 020 7387 8570
Cymdeithas y Cyfreithwyr	Y corff cynrychioladol a rheoleiddiol i 116,000 o dwrneiod yng Nghymru a Lloegr	www.lawsociety.org.uk/choosingandusing/findasolicitor.law T 0870 606 6575
MENCAP	Elusen sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anabledau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr	123 Golden Lane, Llundain, EC1Y 0RT www.mencap.org.uk T 020 7454 0454
Sefydliad Iechyd Meddwl	Elusen flaenllaw yn y DU sy'n darparu gwybodaeth, yn cynnal ymchwil, yn ymgyrchu ac yn ymdrechu i wella gwasanaethau i bawb sy'n cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl, beth bynnag fo'u hoed ac ym mhle bynnag maent yn byw	Sea Containers House, 20 Upper Ground, Llundain, SE1 9QB www.mentalhealth.org.uk T 020 7803 1100
Cymdeithas Cyfreithwyr Iechyd Meddwl (MHFA)	Cymdeithas broffesiynol o gyfreithwyr iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr. Mae ei gwefan yn cynnwys cronfa ddata o gyfreithwyr	www.mhla.co.uk E admin@mhla.co.uk

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
MIND	Y brif elusen iechyd meddwl sy'n ceisio creu bywyd gwell i bawb sy'n profi gofid meddwl. Mae'n darparu cymorth a gwybodaeth	15-19 Broadway, Stratford, Llundain, E15 4BQ www.mind.org.uk Llinell wybodaeth 0845 766 0163
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS)	Mae'n hyrwyddo hawliau a buddiannau pawb sydd ag awtistiaeth ac yn ceisio sicrhau eu bod nhw a'u teuluoedd yn cael gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion	393 City Road, Llundain, EC1V 1NG www.autism.org.uk Llinell gymorth 0845 070 4004
Y Gymdeithas Gofal Genedlaethol (NCA)	Mae'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal cymdeithasol bach a chanolig eu maint yng Nghymru a Lloegr ac yn darparu gwasanaethau i'w cynorthwyo	45-49 Leather Lane, Llundain, EC1N 7JT www.nca.gb.com T 020 7831 7090
The National Family Carer Network	Rhwydwaith sy'n cynnig man trafod ar faterion sy'n effeithio ar deuluoedd sy'n cynnwys oedolyn sydd ag anabledd dysgu	Merchants House, Wapping Road, Bryste, BS1 4RW www.familycarers.org.uk T 0117 930 2600
The National Family Carer Support Service	Rhwydwaith sy'n darparu cymorth a gwybodaeth i ofalwyr teuluol	Merchants House, Wapping Road, Bryste, BS1 4RW www.hft.org.uk T 0117 930 2608
Patient Concern	Corff sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo dewis a dulliau o rymuso pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd. Mae'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau	PO Box 23732, Llundain, SW5 9FY www.patientconcern.org.uk E patientconcern@hotmail.com

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
The Relatives and Residents Association	Corff ar gyfer pobl hŷn sy'n byw, neu sydd ag angen byw, mewn cartref gofal preswyl a'r teuluoedd a'r ffrindiau sy'n cael eu gadael ar ôl. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth drwy linell gymorth	24 The Ivories, 6-18 Northampton Street, Llundain, N1 2HY www.relres.org Linell gymorth 020 7359 8136
RESCARE	Y gymdeithas genedlaethol i blant ac oedolion sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd	Steven Jackson House, 31 Buxton Road, Heaviley, Stockport, SK2 6LS www.rescare.org.uk T 0161 474 7323
RESPOND	Mae'n darparu amryw o wasanaethau i rai sy'n dioddef ac yn cyflawni camdriniaeth rywiol sydd ag anableddau dysgu a'r rhai sydd wedi profi effaith mathau eraill o drawma. Mae ei wasanaethau'n rhoi cymorth a hyfforddiant i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol	3rd Floor, 24-32 Stephenson Way, Llundain, NW1 2HD T 020 7383 0700 F 020 7387 1222 www.respond.org.uk Linell gymorth 0808 808 0700
Scope	Corff anabledd ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n canolbwyntio ar bobl sydd â pharlys yr ymennydd	6 Market Road, Llundain, N7 9PW www.scope.org.uk T 020 7619 7100
Sense	Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol i bobl fyddar a dall, eu teuluoedd a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Mae wedi derbyn cyllid i ddatblygu deunyddiau hyfforddi sy'n trafod materion eiriolaeth ar gyfer pobl fyddar a dall	11-13 Clifton Terrace, Finsbury Park, Llundain, N4 3SR www.sense.org.uk T 0845 127 0060 F 0845 127 0061 Testun 0845 127 0062

Corff	Ei bwrpas a'i waith	Manylion cysylltu
Solicitors for the Elderly	Corff cenedlaethol o gyfreithwyr sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyngor cyfreithiol annibynnol i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr	Room 17, Conbar House, Mead Lane, Hertford, SG13 7AP www.solicitorsfortheelderly.com
Turning Point	Y prif gorff gofal cymdeithasol yn y DU sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys rhai sy'n profi effaith camddefnydd o gyffuriau ac alcohol, problemau iechyd meddwl a'r rhai sydd ag anabledd dysgu	New Loom House, 101 Backchurch Lane, Llundain, E1 1LU www.turning-point.co.uk T 020 7702 2300
United Response	Corff cenedlaethol sy'n creu cyfleoedd a gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu a rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl	113-123 Upper Richmond Road, Putney, Llundain, SW15 2TL www.unitedresponse.org.uk T 020 8246 5200 F 020 8780 9538 Minicom 020 8785 1706

Rhai o'r llyfrynau eraill yn y gyfres hon yw:

- 1 Gwneud penderfyniadau ynglyn â'ch iechyd, eich lles neu'ch arian. Pwy fydd yn penderfynu pan fydddech chi'n methu?
- 2 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i deuluoedd, ffrindiau a gofalwyr di-dâl eraill
- 3 Gwneud penderfyniadau. Arweiniad i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 5 Gwneud penderfyniadau. Canllaw Hawdd i'w Ddarllen

Mae'r llyfrynau hyn ar gael mewn fformatiau eraill os gwneir cais.

Manylion cysylltu ar gyfer archebu:

T 023 80 878038 or 023 80 878036

F 023 80 528324

E reorder@inprintlitho.com

Mae'r llyfrynau ar gael ar-lein hefyd yn:

www.dca.gov.uk/legal-policy/mental-capacity/publications.htm

Rhaglen Weithredu Galluedd Meddyliol a gyhoeddodd y llyfryn hwn. Fe'i hysgrifennwyd gan y tîm yn Advice Services Alliance Advicenow.